

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7/3/2017

Presennol: Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Alwyn E Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

- 1681** Estynnodd y Cadeirydd, Beryl Hughes Griffiths, groeso i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhodri Jones.
- 1682** **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1683** **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant yn Eitem 1690 ii (Cyfraniadau Blynyddol i fudiadau) gan Dewi Jones, Alwyn E Jones (2), Arwel Lloyd Jones, Huw Antur. Alwyn Roberts (2), Heledd Jones (2)
- 1684** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/2/2017.
- 1685** **Materion y Clerc :** Derbyniwyd ymateb George Watson i gais y Cyngor am arwyddion; mynegwyd yr angen am stiwardiaid wrth Bont Mwnwgl y Llyn i atal pawb heblaw cerbydau lleol.
- Adolygwyd Swydd ddisgrifiad y Clerc a'r Cynllun Cyhoeddi er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb a'r gofynion diweddaraf.
- Cytunwyd i anfon eto at Gartrefi Cymunedol Gwynedd i fynegi anfodlonrwydd na chafwyd ymateb am ein pryderon wrth i fflatiau Maesypanyd gael eu gosod.
- 1686** **Is bwyllgor y Fynwent:** Cyflwynodd Alwyn Roberts adroddiad ar ran Is-bwyllgor y Fynwent. Bydd ymweliad pellach a'r safle er mwyn sicrhau cysondeb o ran creu mynwent "lawnt" yn y rhan sydd wedi ei ddefnyddio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Swyddog y Fynwent yn cysylltu gyda theuluoedd lle mae angen diogelu neu ail godi meini, os ydyw'r teuluoedd hynny yn hysbys i'r Cyngor. Diolchwyd i'r teuluoedd sydd eisoes wedi cyflawni gwaith ar y beddau.
- 1687** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd am yr arolwg etholiadol sydd ar waith ar hyn o bryd. Disgwylir gostyngiad yn nifer aelodau Cyngor Gwynedd erbyn etholiadau 2022. Bu Huw Antur mewn cyfarfod ar yr un pwnc yn ddiweddar ac fe gafodd y cyfle i dynnu sylw at hunaniaeth Penllyn. Daw cyfle eto i ymateb i ymgynghoriad.
- 1688** **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Huw P Roberts a soniodd yn arbennig am gyflwyniad Ifan Williams o Gomisiwn Pobl Hŷn. Roedd yn ddiddorol clywed fod rhai Cynghorau yn gwahodd pobl ifanc i fynychu eu cyfarfodydd. Mae pryder fod chwilio eto am safleoedd i gladdu gwastraff niwclear. Trafodwyd pryderon am y dreth newydd ar fusnesau.
- 1689** **Materion Eiddo'r Cyngor:** Nid oedd pryderon ar hyn o bryd.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

1690 Materion ariannol:

- i. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis, sef Llogi'r Neuadd Bentref ar gyfer y Noson Goffi: £38 ; Di-ffib, hyfforddiant a chwprdd i'w gadw: £1303.88.
- ii. Derbyniwyd nifer o geisiadau am gymorth ariannol gan wahanol fudiadau, pob un gyda mantolen. Cytunwyd i wneud y Cyfraniadau Blynyddol fel a ganlyn:

Llen y Llannau	£50
Teulu Gwalia	£50
Adran Bentref	£200
CFFI Glannau Tegid	£200
Y Neuadd Bentref	£750
Eisteddfod y Llungwyn	£100
Clwb Pêl Droed	£150
Cronfa Cyfrifiaduron Ysgol y Berwyn	£100
Canolfan Y Plase	£100
Eisteddfod Gylch Penllyn	£100
Eisteddfod Genedlaethol Môn	£55
Theatr Bara Caws	£100
Ffederasiwn Meirion CFFI	£150

1691 Materion lleol: Mynegwyd anniddigrwydd fod un o ardaloedd y carchar yn Wrecsam, wedi ei alw yn "Bala". Trafodwyd hefyd cau'r ddalfa yng ngorsaf yr Heddlu yn Nolgellau. Cytunodd Alan Jones Evans i holi am ddiogelwch y coed ar ochr y ffordd fawr wrth Caer Gai. Cytunodd hefyd i sicrhau trwsio'r tyllau yn y ffordd wrth Fro Aran a Weirglodd Wen. Cytunwyd i ofyn am adfer Llwybr Cae ceunant ar fyrder.

1692 Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd copi o'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd. Dywedodd Huw Antur y byddai'n mynd i gyfarfod yn ymwneud a chais grant y Loteri.

1693 Gohebiaeth:

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd cais NP5/71/436B sef codi cysgodfan / ardal dysgu allanol pren yn Ysgol O M Edwards.

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i newidiadau i Fryn Llinos, Maesypandy.

2. **Llywodraeth:** Derbyniwyd gwybodaeth am ymatebion i'r ymgynghoriad i newid ffiniau etholaeth seneddol.

Derbyniwyd gwybodaeth am newidiadau arfaethedig i ffiniau etholaethol Cyngor Gwynedd.

3. **Gwynedd:** Derbyniwyd ffurflenni enwebu ar gyfer etholiadau Mai 2017.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Ebrill 4, 2017 yn y Neuadd Bentref